# Dogfen ir Cyhoedd

Mr Dylan Williams
Prif Weithredwr - Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD | | DEMOCRATIC SERVICES COMMITTEE |
| DYDD MAWRTH, 4 TACHWEDD 2025 am 2.00 o'r gloch | | TUESDAY, 4 NOVEMBER 2025 at 2.00 pm |
| YSTAFELL BWYLLGOR, SWYDDFEYDD Y CYNGOR AC YN RHITHIOL DRWY ZOOM | | COMMITTEE ROOM, COUNCIL OFFICES AND VIRTUALLY VIA ZOOM |
| Swyddog Pwyllgor | Shirley Cooke 01248 752518 | Committee Officer |

**AELODAU / MEMBERS**

**Plaid Cymru / The Party of Wales**

Non Dafydd, Carwyn Jones, Llio Angharad Owen *(Is-Gadeirydd/Vice-Chair)*, Dylan Rees, Ken Taylor

**Y Grŵp Annibynnol / The Independent Group**

Gwilym O Jones

**Plaid Lafur Cymru / Welsh Labour Party**

Keith Roberts *(Cadeirydd/Chair)*

**Annibynnwyr Môn / Anglesey Independents**

Aled M Jones, Jeff Evans

# R H A G L E N

**1** **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

**2** **COFNODION** (Tudalennau 1 - 4)

Cyflwyno i'w cadarnhau, gofnodion drafft y cyfarfod blaenorol o'r Pwyllgor a gynhaliwyd ar 25 Mehefin 2025.

**3** **COMISIWN DEMOCRATIAETH A FFINIAU CYMRU – ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL 2026 - 2027** (Tudalennau 5 - 8)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

**4** **AMSERU CYFARFODYDD Y CYNGOR - CASGLIADAU** (Tudalennau 9 - 16)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

**5** **DATBLYGIAD AELODAU** (Tudalennau 17 - 22)

Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Dysgu a Datblygu.

# PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

## Cofnodion y cyfarfod hybrid a gynhaliwyd ar 25 Mehefin 2025

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Keith Roberts (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Llio A Owen (Is-gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Non Dafydd, Paul Ellis, Jeff Evans, Carwyn E Jones, Gwilym O Jones, Dylan Rees, Ken Taylor |
| **WRTH LAW:** | Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br>Rheolwr Dysgu a Datblygu Adnoddau Dynol (ar gyfer eitem 3)<br>Swyddog Pwyllgorau (SC) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Aled M Jones |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Dim |

---

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod, yn enwedig y Cynghorydd Paul Ellis i'w gyfarfod cyntaf o'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.

### 1. DATGAN BUDDIANT

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o fuddiant.

### 2. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion drafft y cyfarfodydd blaenorol o'r Pwyllgor a gynhaliwyd ar 19 Mawrth a 20 Mai 2025 a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

### 3. DATBLYGU AELODAU

Cyflwynwyd - adroddiad y Rheolwr Dysgu a Datblygu Adnoddau Dynol ar yr hyfforddiant a gynigiwyd i'r aelodau ers y cyfarfod o'r Pwyllgor hwn ym mis Tachwedd 2024.

Adroddodd y Rheolwr Dysgu a Datblygu Adnoddau Dynol bod 55 o gyfleodd hyfforddi a datblygu wedi cael eu cynnig i aelodau ers mis Ebrill 2023 hyd yma, sy'n dangos ymrwymiad y Tîm Dysgu a Datblygu i gynnig dewis eang o gyfleoedd dysgu gwerthfawr i aelodau.   Pwysleisiodd y Rheolwr Dysgu a Datblygu Adnoddau Dynol bod pwys mawr wedi'i roi ar hyfforddiant mandadol, a bod tueddiadau cadarnhaol wedi cael eu cofnodi.  Mae cynnydd hefyd wedi cael ei gofnodi yn nifer yr aelodau sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant Iechyd a Diogelwch a Seiber Ddiogelwch.

Eglurodd y Rheolwr Dysgu a Datblygu Adnoddau Dynol bod disgwyl i bob aelod gwblhau'r sesiynau hyfforddi mandadol o leiaf, a bod hyfforddiant bellach ar gael i gefnogi'r teitlau allweddol hyn.

Bydd y drafodaeth yn canolbwyntio ar y teitlau lle mae'r lefelau cwblhau yn isel, yn cynnwys Cydraddoldeb a Diogelu. Mae'r aelodau sydd heb gwblhau'r teitlau hyn wedi cael eu gwahodd i fynychu hyfforddiant gorfforaethol ar yr 2il a'r 8fed o Orffennaf 2025.

Adroddodd y Rheolwr Dysgu a Datblygu Adnoddau Dynol y bydd y Tîm Dysgu a Datblygu Adnoddau Dynol yn gweithio'n agos â'r Gwasanaethau Democratiaeth i gwrdd ag unrhyw anghenion hyfforddi yn sgil y newidiadau i'r trefniadau craffu lleol.

Canolbwyntiodd y drafodaeth ar y cynnydd a wnaed yng Ngham 1af y Cynllun Datblygu ar gyfer Arweinwyr Grŵp. Nodwyd bod pob Arweinydd Grŵp wedi cwblhau'r Proffil DiSC (personoliaeth) a, lle bo'n berthnasol, wedi cymryd rhan mewn sesiwn dadansoddi un i un gyda hyfforddwr allanol arbenigol.

Mae trefniadau ar waith i symud ymlaen i Ail Gam y Cynllun, sy'n cynnwys cyfres o sesiynau hyfforddi ffurfiol dwyieithog, a fydd yn cychwyn fis nesaf.

Nodwyd bod diweddariadau chwarterol ar yr aelodau sydd wedi cwblhau hyfforddiant yn cael eu rhannu â'r Gwasanaethau Democrataidd ac arweinwyr grŵp maes o law.

Mynegwyd pryder nad oedd rhai aelodau wedi cwblhau'r hyfforddiant mandadol. Holwyd p'un a oedd yr aelodau hynny wedi cael eu hatgoffa i fynychu. Dywedodd y Rheolwr Dysgu a Datblygu Adnoddau Dynol bod ffigurau presenoldeb chwarterol yn cael eu rhannu â'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd a Chadeirydd y Pwyllgor Safonau, sy'n trafod materion hyfforddi â'r arweinwyr grŵp perthnasol fel y gallant annog eu haelodau i fynychu.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad.**

## 4. AMSERU CYFARFODYDD Y CYNGOR

Cyflwynwyd - adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ar y broses statudol ar gyfer adolygu amseroedd cychwyn cyfarfodydd Pwyllgorau ffurfiol.

Adroddodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ei bod hi'n amserol ymgynghori â'r aelodau etholedig er mwyn cael eu barn ar amseroedd cychwyn cyfarfodydd statudol y Cyngor. Dywedodd bod yr adolygiad diwethaf wedi cael ei gynnal yn hydref 2022. Ers hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau statudol i helpu Cynghorau gwrdd â'r gofynion.

Mae Canllawiau Llywodraeth Cymru'n nodi bod angen ystyried y pwyntiau isod: -

*a. A fyddai hi'n well cynnal cyfarfodydd yn ystod y dydd neu gyda'r nos;*
*b. A fydd y cyfarfodydd yn cael eu cynnal wyneb yn wyneb, yn gyfan gwbl ar-lein, neu mewn sawl lleoliad;*

*c. Yr hyd a ffafrir ar gyfer cyfarfodydd;*
*d. A yw adegau penodol yn achosi trafferthion i gynghorwyr â nodweddion penodol, fel oedran, rhyw, crefydd, cyfrifoldebau gofalu neu fod mewn cyflogaeth.*

Adroddodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd y bydd ymgynghoriad 6 wythnos o hyd yn cael ei gynnal yn ystod Gorffennaf ac Awst. Roedd yn croesawu ymateb y Pwyllgor i'r arolwg.

Mynegwyd pryder ynglŷn â'r effaith y gallai cyfarfodydd gyda'r nos ei gael ar staff ac aelodau. Dywedodd y Pennaeth Democratiaeth y byddai'r staff sy'n mynychu cyfarfodydd yn cael cyfle i roi eu barn unwaith y bydd yr aelodau wedi rhoi adborth drwy gwblhau'r holiadur. Hefyd, amlygwyd pwysigrwydd cynnal cyfarfodydd ar yr un diwrnod o'r wythnos, er mwyn helpu aelodau sydd gan ymrwymiadau teuluol a gwaith.

Nodwyd y bydd adroddiad sy'n crynhoi canfyddiadau'r ymgynghoriad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn yr hydref, ac y bydd argymhellion yn cael eu cyflwyno i'r Cyngor llawn ym mis Rhagfyr.

**PENDERFYNWYD argymell bod y Pwyllgor yn: -**

- **Cytuno i ymgynghori gydag aelodau ar amseru cyfarfodydd**
- **Cytuno i'r amserlen a nodir ym mharagraff 12 yn yr adroddiad.**
- **Ystyried a chymeradwyo'r ddogfen ymgynghori yn atodiad A.**

## 5. DIOGELWCH AELODAU

Cyflwynwyd - adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ar yr arweiniad a'r cymorth sydd ar gael i aelodau o safbwynt eu diogelwch personol yn eu rôl fel Cynghorwyr.

Adroddodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd bod cefnogaeth ar gael drwy'r Cynghorydd Swyddogion Etholedig, PC Jaggard o Heddlu Gogledd Cymru drwy'r cynllun 'Ymgyrch Ford' sy'n cael ei ariannu gan y Swyddfa Gartref. Mae'r Cynghorydd wedi bod yn cynnal sesiynau briffio i aelodau awdurdodau lleol, ac mae 14 aelod o Gyngor Sir Ynys Môn wedi mynychu un o'r sesiynau ddechrau mis Mehefin. Nodwyd y bydd sesiynau pellach yn cael eu cynnal yn ystod ail hanner 2025.

Adroddodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd bod pryderon ynglŷn â diogelwch ac aflonyddu yn gallu cael effaith andwyol ar les aelodau. Fe wnaeth atgoffa'r Pwyllgor bod gan y Cyngor wasanaeth cwnsela cyfrinachol i aelodau sy'n cael ei ddarparu gan Medra, yn ôl y gofyn.

Nodwyd y bydd y Gwasanaethau Democrataidd yn datblygu canllaw manwl i aelodau dros fisoedd yr haf a bod croeso i'r aelodau gyfrannu at y canllaw hwnnw. Fe wnaeth y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd annog aelodau sydd heb fynychu un o'r sesiynau briffio ar ddiogelwch i wneud hynny.

Fe wnaeth yr aelodau fynegi pryder ynglyn â sylwadau negyddol yn y wasg a sylwadau maleisus am y Cyngor ac aelodau ar y cyfryngau cymdeithasol. Mewn ymateb dywedodd y Gwasanaethau Democrataidd bod sylwadau sarhaus ar-lein ar gynnydd, ac fe awgrymodd ei fod holi PC Jaggard i weld a oes sesiynau briffio ar gael i godi ymwybyddiaeth aelodau ynglyn â chadw'n ddiogel ar-lein.

**PENDERFYNWYD: -**

- **Nodi cynnwys yr adroddiad a sylwadau'r aelodau ar faterion diogelwch.**
- **Cytuno bod y Gwasanaeth Democrataidd annog pob aelod i fynychu hyfforddiant diogelwch yr Heddlu.**
- **Cytuno bod y Gwasanaethau Democrataidd yn rhannu dogfen ganllaw syml gydag aelodau.**

Daeth y cyfarfod i ben am 10:45 yb

**Y CYNGHORYDD KEITH ROBERTS**
**CADEIRYDD**

Cyngor Sir Ynys Môn

| | |
|---|---|
| Pwyllgor: | Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd |
| Dyddiad: | 4 Tachwedd 2025 |
| Teitl yr adroddiad: | Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru – Adroddiad Blynyddol Drafft ar Gydnabyddiaeth Ariannol 2026 - 2027 |
| Adroddiad gan: | Dyfan Sion<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd |
| Pwrpas yr Adroddiad: | Ystyried cynigion drafft y Comisiwn gyfer 2026 - 2027 ac ymateb i'r ymgynghoriad |

## 1.0 Cefndir

Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol oedd yn gyfrifol yn flaenorol am bennu'r lefelau a'r trefniadau ar gyfer tâl aelodau'r sefydliadau canlynol:

- Prif gynghorau – cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol
- Cynghorau tref a chymuned
- Awdurdodau parciau cenedlaethol
- Awdurdodau tân ac achub
- Cyd-bwyllgorau corfforaethol

Yn unol â Deddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024, cafodd y Panel ei ddiddymu ar 31 Mawrth 2025, ac fe drosglwyddwyd ei swyddogaethau i'r Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru ar 1 Ebrill 2025. Mae'r Comisiwn yn gorff annibynnol a noddir gan Lywodraeth Cymru. O ran cydnabyddiaeth ariannol, mae'r Comisiwn yn gallu gwneud penderfyniadau am:

- y strwythur cyflog sy'n pennu tâl yr aelodau
- y math o lwfansau a natur y lwfansau hynny sydd i'w talu i aelodau
- p'un a yw'r taliadau'n orfodol neu'n caniatáu lefel o hyblygrwydd lleol
- drefniadau o ran absenoldeb teuluol
- drefniadau ar gyfer monitro cydymffurfiaeth â phenderfyniadau'r Comisiwn

Mae'n ofynnol, yn ôl y gyfraith, i'r sefydliadau a restrir uchod weithredu'r penderfyniadau y mae'r Comisiwn yn eu gwneud.

Dyma adroddiad blynyddol drafft cyntaf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru, sydd ar agor i ymgynghori arno tan 18 Tachwedd 2025. Mae'r Comisiwn yn bwriadu cyhoeddi ei adroddiad terfynol erbyn diwedd y flwyddyn.

Mae adroddiad drafft 2026-27 yn ystyried uwchraddio symiau lle bo hynny'n briodol ond yn gadael y fframwaith heb ei newid. Bwriad y Comisiwn yw gwneud newidiadau sylweddol i'r fframwaith daliadau unwaith yn unig ym mhob cylch etholiadol, a hynny yn yr adroddiad cyn etholiadau llywodraeth leol. Bydd hyn felly'n digwydd mewn pryd i adroddiad blynyddol y flwyddyn nesaf (2027 i 2028).

Mae gweddill yr adroddiad yma'n crynhoi'r penderfyniadau drafft sy'n berthnasol i'r Cyngor hwn.

## 2.0 Taliadau i aelodau etholedig

Mae'r cyflog sylfaenol, a delir i'r holl aelodau etholedig, yn gydnabyddiaeth ariannol am gyfrifoldeb cynrychiolaeth gymunedol a chyfranogiad yn y gwaith craffu, rheoleiddio a swyddogaethau cysylltiedig llywodraethu lleol. Mae'n seiliedig ar drefn gyfwerth ag amser llawn o 3 diwrnod yr wythnos. Mae'r Comisiwn wedi adolygu'r ymrwymiad amser hwn, ac ni chynhigir unrhyw newidiadau ar gyfer 2026-27.

Mae'r Comisiwn wedi penderfynu ei bod yn iawn cadw'r cysylltiad rhwng cyflog sylfaenol cynghorwyr a chyflogau cyfartalog eu hetholwyr. Golygai hyn gynnydd o 6.4%.

Mae pob uwch gyflog yn cynnwys y cyflog sylfaenol. Ni chynhigir unrhyw newidiadau i'r fframwaith bandio uwch gyflogau eleni. Bydd yr elfen gyflog sylfaenol yn cael ei chodi yn unol â'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion (ASHE) a bydd yr un cynnydd hefyd yn berthnasol i elfen rôl Bandiau 1, 2, 3, 4 a 5, gan roi cynnydd o 6.4% i bob rôl.

Mae'r tabl isod yn rhestru'r swyddi sydd â hawl i uwch gyflog neu gyflog dinesig yn 2025-26 ac yn cymharu'r holl gyflogau cyfredol â'r cynigion drafft ar gyfer 2026-27:

| Rôl / Swydd | 2025-2026 | 2026-2027 (drafft) |
|---|---|---|
| Cyflog sylfaenol i'r holl aelodau, sydd wedi'i gynnwys yn yr holl uwch gyflogau a chyflogau dinesig isod | £19,771 | **£21,044** |
| **Band 1:** | | |
| Arweinydd | £63,020 | **£67,079** |
| Dirprwy Arweinydd | £44,114 | **£46,955** |
| **Band 2:** | | |
| Aelodau'r Pwyllgor Gwaith | £37,812 | **£40,247** |


Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English

| Rôl / Swydd<br><br>Band 3: | 2025-2026 | 2026-2027 (drafft) |
|---|---|---|
| Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol | £29,657 | **£31,567** |
| Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio | £29,657 | **£31,567** |
| Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion | £29,657 | **£31,567** |
| Cadeirydd y Cyngor (cyflog dinesig) | £29,657 | **£31,567** |
| **Band 4:** | | |
| Arweinydd grwp yr wrthblaid fwyaf | £29,657 | **£31,567** |
| **Band 5:** | | |
| Is-Gadeirydd y Cyngor (cyflog dinesig) | £23,726 | **£25,253** |

Bydd y cyfyngiad ar nifer yr uwch gyflogau sy'n daladwy ('y cap') yn parhau ar 17.

## 3.0 Blaenoriaethau'r Comisiwn yn ystod y flwyddyn i ddod

- **Taliadau ailsefydlu:** bydd y Comisiwn yn ystyried pa daliadau, os o gwbl, y dylai prif gynghorau eu gwneud i gynghorwyr sy'n sefyll i gael eu hailethol ond yn aflwyddiannus. Os yw'r Comisiwn yn penderfynu y dylid sefydlu cynllun taliad ailsefydlu, rhagwelir y byddai Llywodraeth Cymru yn gosod rheoliadau i hwn fod ar waith ar gyfer etholiadau lleol 2027.

- **Rolau uwch:** bydd y Comisiwn yn ystyried a yw'r fframwaith presennol o gydnabyddiaeth ariannol yn cydnabod yn briodol ymrwymiad amser a chyfrifoldebau'r rolau uwch. Bydd unrhyw benderfyniad sy'n dilyn o'r gwaith yma'n cael ei gynnwys yn yr adroddiad blynyddol ar gyfer 2027-28.

- **Cyd-bwyllgorau Corfforedig (CBC):** bydd y Comisiwn yn ymgynghori ynghylch a yw unrhyw gydnabyddiaeth ariannol ychwanegol yn briodol i adlewyrchu'r ymrwymiad a'r cyfrifoldebau ychwanegol. Bydd unrhyw benderfyniad yn cael ei gynnwys yn yr adroddiad blynyddol ar gyfer 2027-28.

- **Aelodau cyfetholedig a lleyg:** Mae cyfraddau cydnabyddiaeth ariannol i aelodau cyfetholedig yn gysylltiedig â'r cyfraddau penodiadau cyhoeddus a delir gan Llywodraeth Cymru ac nid ydynt wedi cael eu huwchraddio ers rhai blynyddoedd. Mae Llywodraeth Cymru wedi dechrau adolygiad o'r cyfraddau hyn a bydd y Comisiwn yn ystyried canlyniad yr adolygiad hwnnw cyn gwneud unrhyw benderfyniad mewn perthynas ag aelodau cyfetholedig a lleyg.

- **Cyswllt â'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion (ASHE):** bydd y Comisiwn yn ystyried a yw'n parhau i fod yn briodol i gydnabyddiaeth ariannol gael ei gysylltu â'r arolwg yma

## 4.0 Argymhelliad

Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried penderfyniadau drafft y Comisiwn ar gyfer 2026 i 2027 ac awdurdodi swyddogion i ymateb i'r ymgynghoriad yn unol â thrafodaethau'r Pwyllgor.

Papur cefndirol: Adroddiad Blynyddol Drafft ar Gydnabyddiaeth Ariannol 2026 - 2027; Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru

Adroddiad blynyddol drafft ar gydnabyddiaeth ariannol 2026-2027 | CDFfC



Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English

| CYNGOR SIR YNYS MON | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd |
| **Dyddiad:** | 4 Tachwedd 2025 |
| **Teitl yr adroddiad:** | Amseru Cyfarfodydd y Cyngor - casgliadau |
| **Pwrpas yr adroddiad:** | Cael cytundeb y pwyllgor i'r argymhellion ar y ffordd ymlaen. |
| **Awdur:** | Dyfan Sion, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd |

**Cefndir**

1. Yn unol â'r canllawiau statudol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru dan Adran 6(1) Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, rhaid i'r Cyngor gynnal arolwg ymhlith yr Aelodau o ran amseru ei gyfarfodydd. Dylai pob awdurdod lleol adolygu amseroedd cychwyn cyfarfodydd o leiaf unwaith y tymor, gorau oll petai hynny'n fuan ar ôl ethol Cyngor newydd.

2. Ymgynghorwyd gyda aelodau ar amseru cyfarfodydd yn ystod hydref 2022, felly mae'r angen i adolygu'r trefniadau yn ystod tymor y Cyngor hwn wedi ei gyfarch. Ers hynny fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau statudol i gynorthwyo Cynghorau ar fodloni gofynion Mesur Llywodraeth Leol 2011 a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau 2021. Mae'r canllawiau yn cynnwys rhagor o wybodaeth am drefniadau cyfarfodydd, felly cytunodd y Pwyllgor yn ei gyfarfod ym mis Mehefin i swyddogion ymgynghori gyda aelodau unwaith eto.

**Cyd-destun**

3. Mae'r pwyllgorau a'r cyfarfodydd a nodir yn yr adroddiad hwn yn cynnwys y Cyngor llawn a phob pwyllgor ffurfiol a sefydlwyd dan bwerau a ddirprwywyd gan y Cyngor. Nid yw cyfarfodydd eraill fel sesiynau briffio, paneli craffu a chyfarfodydd paratoi yn cael eu cynnwys, ond bydd yr egwyddorion yn cael eu cymhwyso cyn belled ag y bo'n bosibl.

**Ymatebion**

4. Dosbarthwyd yr holiadur i'r holl aelodau etholedig ac aelodau lleyg ar 13 Awst, a gofynnwyd am ymatebion erbyn 19 Medi. Anfonwyd atgoffwr i'r aelodau ar 9 Medi. Mae copi o'r ffurflen ynghlwm yn atodiad A.

5. Derbyniwyd 26 o ymatebion i gyd.  Tri ymateb gan aelodau lleyg a 23 gan aelodau etholedig.  Mae hynny'n gyfran cymharol uchel o ymatebion (66% o aelodau etholedig) ac yn sail ddigonol i ddod i gasgliadau.

6. Gofynnwyd i aelodau nodi eu dewis yn nhrefn blaenoriaeth 1 i 4. Rhoddir dadansoddiad o'r ymatebion isod.

| **Pwyllgor** | **Adborth yn nhrefn y dewis a ffefrir** | **Nifer sy'n ffafrio'r amser fel dewis cyntaf** |
|---|---|---|
| **Cyngor Sir** | | |
| 10yb | 3 | 5 |
| 1yh | 1 | 9 |
| 2yh | 2 | 6 |
| 6yh | 4 | 0 |
| **Pwyllgor Gwaith** | | |
| 10yb | 1 | 10 |
| 2yh | 2 | 4 |
| 4yh | 3 | 1 |
| 6yh | 4 | 0 |

| **Pwyllgorau Craffu** | | |
|---|---|---|
| 10yb | 2 | 6 |
| 2yh | 1 | 11 |
| 4yh | 3 | 1 |
| 6yh | 4 | 0 |

| **Pwyllgorau Lled-farnwrol (yn cynnwys Cynllunio, Archwilio a Democrataidd)** | | |
|---|---|---|
| 10yb | 2 | 1 |
| 1yh / 2yh | 1 | 12 |
| 4yh | 3 | 0 |
| 6yh | 4 | 0 |

| **Pwyllgorau eraill (yn cynnwys Safonau, CYS, a Polisi Cynllunio)** | | |
|---|---|---|
| 10yb | 2 | 8 |
| 2yh | 1 | 10 |
| 4yh | 3 | 1 |
| 6yh | 4 | 0 |

7. Derbyniwyd nifer o sylwadau hefyd, gellir eu crynhoi i'r penawdau canlynol:

   **Hyd y cyfarfodydd** – rhai yn awgrymu na ddylai cyfarfodydd barhau mwy na 2 awr, eraill o'r farn bod hyd at 3 awr yn rhesymol. Awgrymwyd dylid cael toriad o 5 munud ar ôl 2 awr.

   **Amseru** – roedd nifer o aelodau yn gwrthwynebu cyfarfodydd am 6yh oherwydd gofynion eraill yn y gymuned / etholaeth, e.e. cynghorau cymuned, cyfarfodydd llywodraethwyr ysgol ayyb. Er hynny, gwnaethpwyd un sylw bod cyfarfodydd bore neu cyfarfodydd am 6yh yn well i aelodau sy'n gweithio neu sydd efo plant oed ysgol. Roedd nifer o blaid cadw cyfarfodydd i ddydd Mawrth i dydd Iau os yn bosibl. Amlygodd rhai aelodau eu bod yn ffafrio cychwyn cyfarfodydd bore yn gynt (9 neu 9.30) a cyfarfodydd prynhawn yn gynt (1 neu 1.30).

   **Dim newid** – Amlygodd rhai aelodau eu bod yn fodlon efo'r drefn bresennol ac nad oedd angen newid.

**Casgliadau**

8. Roedd mwyafrif bychan o blaid symud amser cychwyn y Cyngor Sir o 2yp i 1yp. Cychwyn am 2yp oedd yr ail opsiwn mwyaf poblogaidd.

9. Roedd mwyafrif sylweddol o blaid cadw at y trefniadau cyfredol efo'r Pwyllgor Gwaith (cychwyn am 10yb), y Pwyllgorau Craffu (cychwyn am 2yh), Pwyllgor Cynllunio (cychwyn am 1yp), Pwyllgor Archwilio (cychwyn am 2yp) a'r Pwyllgor Democrataidd cychwyn am 2yp).

10. Roedd barn gymysg ar bwyllgorau eraill, gyda mwyafrif bychan o blaid cychwyn am 2yp, ond yr opsiwn o gychwyn am 10yb yn dderbyniol hefyd. Gan fod y ddau opsiwn (10 a 2) yn ymddangos yn dderbyniol i aelodau, rhoddir hynny yr hyblygrwydd i ni ddefnyddio'r naill slot neu'r llall wrth drefnu cyfarfodydd.

**Cydraddoldeb**

11. Gofynnwyd i gadw cyfarfodydd i ddydd Mawrth i ddydd Iau er mwyn hwyluso trefniadau gwaith a gofalu. Hefyd mae cyfarfodydd aml-leoliad yn galluogi rhai aelodau ymuno o bell, ble byddai'n anodd iddynt wneud fel arall. Gwnaethpwyd un sylw ynglŷn a'r angen i geisio sicrhau bod amseriad cyfarfodydd yn y dyfodol yn hwyluso denu aelodau iau, oed gwaith i'r Cyngor.

12. Mae'n bosibl i aelodau hawlio am gostau gofal ychwanegol a ysgwyddir ganddynt i'w galluogi i gyflawni eu rôl. Rhaid i'r Cyngor ddarparu taliad tuag at gostau dilys / angenrheidiol gofal plant neu oedolion dibynnol.

**Argymhellion**

13. Gofynnir i’r Pwyllgor:

    a. roi sylw dyledus i ganfyddiadau’r ymgynghoriad
    b. gefnogi symud amser cychwyn cyfarfodydd y Cyngor Sir o 2yh i 1yh ar gyfer blwyddyn ddinesig 26/27 ymlaen.  Bydd hyn yn benderfyniad i’r Cyngor Sir yn ei gyfarfod ym mis Mai 2026.
    c. awdurdodi’r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd i atgoffa aelodau o’r gallu i hawlio costau gofal.
    d. nodi y bydd angen adolygiad pellach o amseroedd cyfarfodydd yn fuan ar ôl etholiadau Llywodraeth Leol 2027.

**Atodiad A / Appendix A**

Amseriad Cyfarfodydd / Timing of Meetings

Enw / Name ______________________________________________________________________________________________

1. Gofynnir i Aelodau nodi eu dewis (yn nhrefn blaenoriaeth 1,2,3, a 4) a hefyd nodi unrhyw sylwadau ychwanegol / Members are requested to note their preferences (in priority order 1,2,3, and 4) and include any other comments.

| **A - Cyfarfodydd y Cyngor / Council Meetings** | | | | Sylwadau Ychwanegol / Additional Comments |
|---|---|---|---|---|
| 10.00 a.m. | 2.00 p.m. | 4.00 p.m. | 6.00 p.m. | |
| | | | | |
| **B - Pwyllgor Gwaith / Executive Meetings** | | | | |
| 10.00 a.m. | 2.00 p.m. | 4.00 p.m. | 6.00 p.m. | |
| | | | | |
| **C - Pwyllgorau Craffu / Scrutiny Committees** | | | | |
| 10.00 a.m. | 2.00 p.m. | 4.00 p.m. | 6.00 p.m. | |
| | | | | |

| **Ch - Pwyllgorau Lled-Farnwrol – Cynllunio, Awdit, Democrataidd, Penodiadau, Apeliadau, Trwyddedu, Ymchwilio, Disgyblu,**<br><br>**Quasi-Judicial Committees – Planning, Audit, Democratic, Appointments, Appeals, Licensing, Investigation, Disciplinary** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 10.00 a.m. | 2.00 p.m.<br><br>(1.00 p.m. Cynllunio / Planning) | 4.00 p.m. | 6.00 p.m. | |
| | | | | |
| **D – Pwyllgorau eraill – CYS, Polisi Cynllunio, Safonau, Is-Bwyllgor Indemniadau**<br><br>**Other Committees – SAC, Planning Policy, Standards, Indemnities sub-Committees** | | | | |
| 10.00 a.m. | 2.00 p.m. | 4.00 p.m. | 6.00 p.m. | |
| | | | | |

2. Gofynnir i Aelodau nodi unrhyw sylwadau am hyd cyfarfodydd / Members are asked to note any comments about the length of meetings.

| Sylwadau / Comments |
|---|
| |

3. Gofynnir i Aelodau nodi unrhyw sylwadau am adegau penodol sy’n achosi trafferthion iddynt o safbwynt nodweddion penodol, fel oedran, rhyw, crefydd, cyfrifoldebau gofalu neu fod mewn cyflogaeth. / Members are asked to note any comments about specific times that cause difficulties with particular characteristics, such as age, gender, religion, having caring responsibilities or being in employment.

| Sylwadau / Comments |
| --- |
| |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD |
| **DYDDIAD:** | TACHWEDD 2025 |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | DATBLYGIAD AELODAU |
| **ADRODDIAD GAN:** | RHEOLWR DYSGU A DATBLYGU |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | ELEN PRITCHARD |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | DARPARU DIWEDDARIAD AR FATERION DYGU A DATBLYGU AR GYFER AELODAU ETHOLEDIG |

## 1. CEFNDIR

Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi diweddariad i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar faterion dysgu a datblygu aelodau, hynny ers yr adroddiad a gyflwynwyd ym mis Mehefin 2025 a chan roi trosolwg o'r ddarpariaeth a gynigiwyd i'n Haelodau Etholedig dros y cyfnod diwethaf.

## 2. Y CYNLLUN

Fel y byddwch yn ymwybodol mae'r cynllun dysgu sydd wedi ei osod ar gyfer ein Haelodau Etholedig wedi'i rannu i'r penawdau penodol canlynol; **Hyfforddiant mandadol; Cyffredinol; Iechyd a Lles; Ar gais ac modiwlau e-Ddysgu**. Gyda'r penawdau penodol hyn mewn golwg, rydym yn cynnig diweddariad isod ar y ddarpariaeth hyfforddiant o fis Ebrill 2023 hyd at hyn.

Cynigiwyd cyfanswm o 55 o gyfleoedd dysgu a datblygu i Aelodau Etholedig gan y Tîm Dysgu a Datblygu. Manylion llawn wedi eu cynnwys yn Atodiad 1.

Gweler y wybodaeth ddiweddaraf isod am yr hyfforddiant sydd wedi'i ddynodi'n fandadol (fel yr amlinellir gan y Gwasanaethau Democrataidd), a'u lefelau presenoldeb cyfatebol;

| | |
|---|---|
| Côd Ymddygiad | 35/35 |
| Iechyd a Diogelwch | 35/35 |
| Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant | 34/35 |
| Diogelu Data | 33/35 |
| Seiberddiogelwch | 35/35 |
| Diogelu | 29/35 |

Y disgwyl ydi bod pob Aelod yn mynychu'r teitlau hyn fel isafswm a bod unrhyw hyfforddiant / digwyddiadau pellach ar gael i gefnogi'r teitlau allweddol hyn.

Mae gwaith yn parhau i fynd yn ei flaen er mwyn uchafu niferoedd cwblhau y teitlau hyn.

## 3. HYFFORDDIANT DIOGELU

Mae'n amserol i ddiweddaru'r Pwyllgor hwn ar y maes uchod, yn enwedig â'r teitl hwn bellach yn arddangos y lefel cwblhau isaf ymysg y teitlau mandadol sy'n ddisgwyliedig i'w cwblhau.

Yn dilyn lansiad fframwaith hyfforddi a safonau diogelu newydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn 2024 mae diweddariadau wedi eu gwneud i'r arweiniad yn y maes yma. Mae'n dilyn felly bod angen addasu'r hyfforddiant diogelu sy'n cael ei rannu gennym yma yng Nghyngor Sir Ynys Môn. Gellir mofyn gwybodaeth pellach ar y safleoed isod:

**https://gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau/lansiad-y-fframwaith-hyfforddiant-dysgu-a-datblygu-diogelu-cenedlaethol**

**https://gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau-canllawiau/diogelu-rhestr/safonau-hyfforddiant-dysgu-a-datblygu-cenedlaethol**

Mae'r fframwaith newydd hwn wedi ei rannu yn 7 rhan, sy'n cynnwys Grŵpiau A – F .

Bydd gofyn i'n Haelodau Etholedig gwblhau'r Hyfforddiant Grŵp A a Grŵp F.

Mae Grŵp A yn cyfateb i'r cwrs ymwybyddiaeth sylfaenol diogelu blaenorol. Mae'r modiwl e-ddysgu yma wedi ei greu gan Gofal Cymdeithasol Cymru ac wedi ei nodi'n fodiwl mandadol i holl aelodau staff Cyngor Sir Ynys Môn mwn cyfarfod diweddar o'r Tîm Rheoli Corfforaethol. Mae gofyn ar i unrhyw aelod o staff newydd gwblhau'r modiwl e-ddysgu o fewn y 6 mis cyntaf o'u cyflogaeth ac fel rhan or broses anwytho. Mae ymarferwyr Grŵp A yn cynnwys pob aelod o staff sy'n ymuno â sefydliadau cyhoeddus neu wirfoddol yng Nghymru. Mae'r safonau hyfforddi hefyd yn berthnasol i weithwyr y sector preifat, gwirfoddolwyr, ac Aelodau Etholedig Awdurdodau Lleol.

Bydd angen i bob un adnewyddu eu dysgu drwy'r ddarpariaeth e-ddysgu sydd ar gael pob tair mlynedd (Hyn yn berthnasol ar draws pob Grŵp).

Mae'r modiwl e-ddysgu ar gael drwy'r **Gronfa Ddysgu** Cwrs: Diogelu (Grŵp A) neu ar wefan Gofal Cymdeithasol Cymru Grŵp A Diogelu | Gofal Cymdeithasol Cymru

Mae angen i ymarferwyr Grŵp F gwblhau y modiwl e-ddysgu sy'n berthnasol i Grŵp A yn ogystal â mynychu unrhyw hyfforddiant perthnasol pwrpasol yn ôl yr angen. Byddai cwrs Rhianta Corfforaethol yn cael ei gyfrif yn berthnasol i Grŵp F.

Mae'r rolau canlynol yn enghreifftiau o rolau sydd angen cyfarch gofynion Grŵp F yma yng Nghyngor Môn; Aelodau Etholedig, y Prif Weithredwr a Phenaethiaid Gwasanaeth ayyb.

Noder ei bod yn ofyniad o dan y rheoliadau newydd i fod yn ail ymweld neu adnewyddu hyfforddiant diogelu am gyfnod o o leiaf 6 awr, hynny bob tair blynedd.

## 4. CYNLLUN DATBLYGOL AR GYFER ARWEINYDDION GRWPIAU

Yn dilyn cymeradwyaeth gan y Pwyllgor hwn mae cynnydd da yn cael ei wneud ar weithredu'r Cynllun.

- Mae pob un o'n Harweinyddion Grwpiau wedi cwblhau Proffil DiSC (math o broffil personoliaeth) a lle'n berthnasol wedi ymgymryd â Sesiwn Dadansoddi 1:1 gydag hyfforddwr annibynnol.
- Mae 2/4 sesiwn cymhelliant ffurfiol wedi eu cynnal gyda threfniadau yn yr arfaeth ar gyfer trefnu'r trydydd sesiwn yn y gyfres.

Noder fod darpariaeth wedi ei wneud er mwyn sicrhau bod y gweithgareddau uchod ar gael yn ddwyieithog ac i ddilyn yn newis iaith yr unigolyn.

Ymhellach i hyn byddem yn edrych ar bob cyfle i gyfeirio ein Haelodau Etholedig at y trwch ddarpariaeth sydd ar gael gan CLILC ac Academi Cymru fel y bo'n berthnasol.

## 5. CYFATHREBIADAU

Mae'r cydweithio agos rhwng y Tîm Dysgu a Datblygu a'r Gwasanaeth Democrataidd ac unrhyw Swyddogion perthnasol eraill yn yr Awdurdod yn parhau i'w gyfrif yn effeithiol. Hynny'n sicrhau bod unrhyw gynllun yn mynd i'r afael ag anghenion ein Haelodau Etholedig ac yn parhau i esblygu'n ôl y gofyn.

Mae gwahoddiadau i fynychu hyfforddiant yn parhau i gael eu rhannu drwy'r trefniadau arferol drwy gyfeiriad e-bost *CefnogaethAelodau*, yn ogystal â gwahoddiadau trwy apwyntiadau calendr electronig uniongyrchol.

Rhennir adroddiadau chwarterol gyda'r Gwasanaethau Democrataidd, sydd wedyn yn cael eu rhannu gydag ein Harweinwyddion Grŵp. Bydd yr adroddiadau hyn yn cynnwys manylion am hyfforddiant mandadol a'r holl hyfforddiant arall a gwblhawyd o fewn y chwarter penodol hwnnw.

## 6. FFURF TROSGLWYDDO

Ar y cyfan, mae'r sesiynau’n cael eu cynnal fel sesiynau ystafell ddosbarth gyda rhai enghreifftiau lle’n addas ac yn berthnasol i fod yn cynnig rhai sesiynau rhithiol. Noder, bod y dull cyflwyno’n ddibynnol ar y pwnc dan sylw yn ogystal â pha ddull a gynigir / ffefrir gan y darparwr Hyfforddiant.

Mae Aelodau Etholedig yn parhau i gael cynnig y dewis o fynychu sesiwn o fewn diwrnod gwaith arferol neu sesiwn gynnar gyda'r nos i sicrhau bod ymrwymiadau'r Aelodau Etholedig yn cael eu hystyried ynghyd â chynyddu presenoldeb ar sesiynau.

## 7. I GRYNHOI

Mae'r cynllun dan sylw yn parhau i’w chyfri’n esblygol a bydd yn parhau i gael ei hadolygu a'i diwygio’n ôl y gofyn, e.e. yn dilyn newidiadau mewn Deddfwriaeth; gweithdrefnau; Materion allanol ac ati. Bydd hyn yn sicrhau ein bod yn gallu ymateb i'r anghenion a nodwyd a sicrhau darpariaeth amserol.

## 8. ARGYMHELLIAD

I nodi cynnwys yr adroddiad

**Cynnig hyfforddiant a datblygiad i Aelodau Etholedig yn 2023 -2025**

**Training and Development offered to Elected Members in 2023 - 2025**

| Teitl y Cwrs | Fynychwyd / Attended | Gwahoddwyd / Invited | Course Title |
|---|---|---|---|
| **Côd Ymddygiad** | **1** | **1** | **Code of Conduct** |
| **Côd Ymddygiad** | **2** | **2** | **Code of Conduct** |
| **Côd Ymddygiad** | **3** | **3** | **Code of Conduct** |
| **Cyfansoddiad y Cyngor** | **1** | **1** | **Council Constitution** |
| **Delio gyda'r Wasg** | **3** | **8** | **Dealing with the Press** |
| **Diogelu i Aelodau** | **6** | **14** | **Safeguarding for Members** |
| **Sesiwn Sgiliau TGCh 1-i-1** | **3** | **3** | **1-to-1 ICT Skills Session** |
| **Sesiwn Sgiliau TGCh 1-i-1** | **2** | **3** | **1-to-1 ICT Skills Session** |
| **Sesiwn Sgiliau TGCh 1-i-1** | **2** | **2** | **1-to-1 ICT Skills Session** |
| **Sesiwn Sgiliau TGCh 1-i-1** | **2** | **3** | **1-to-1 ICT Skills Session** |
| **Sesiwn Sgiliau TGCh 1-i-1** | **2** | **3** | **1-to-1 ICT Skills Session** |
| **Sesiwn Sgiliau TGCh 1-i-1** | **0** | **1** | **1-to-1 ICT Skills Session** |
| **Ymwybyddiaeth Ofalgar** x2 **(***agored i bawb***)** | **0** | **35** | **Mindfulness Awareness** x2 **(***open to all***)** |
| **Ymwybyddiaeth Menopos (***agored i bawb***)** | **0** | **35** | **Menopause Awareness (***open to all***)** |
| **Sgiliau Cadeirio** | **1** | **2** | **Chairing Skills** |
| **Sgiliau Cadeirio** | **3** | **3** | **Chairing Skills** |
| **Sgiliau Craffu Effeithiol** | **1** | **1** | **Principles of Effective Scrutiny** |
| **Cyflwyniad i Newid Hinsawdd** | **11** | **26** | **Introduction to Climate Change** |
| **Cyflwyniad i Newid Hinsawdd** | **4** | **21** | **Introduction to Climate Change** |
| **Cyflwyniad i Newid Hinsawdd** | **3** | **19** | **Introduction to Climate Change** |
| **Cyflwyniad i Newid Hinsawdd** | **3** | **12** | **Introduction to Climate Change** |
| **Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant** | **0** | **4** | **Equality, Diversity & Inclusion** |
| **Diogelu Data** | **6** | **13** | **Data Protection** |
| **Diogelu Data** | **8** | **12** | **Data Protection** |
| **Ymwybyddiaeth Diogelu i Aelodau** | **9** | **12** | **Gypsies and Travellers' Cultural Awareness** |
| **Ymwybyddiaeth Diwylliannol Sipsiwn a Theithwyr** | **13** | **30** | |
| Ymwybyddiaeth Twyll a Llygredd | **12** | **44** | Fraud and Corruption |
| Ymwybyddiaeth Twyll a Llygredd | **4** | **44** | Fraud and Corruption |
| Beth mae'n ei olygu i fod yn Ynys sy'n Wybodus am Drawma? | **5** | **11** | What does it mean to be a Trauma Informed Island |
| Fideo Seibr-ddiogelwch | **2** | **2** | Cyber Security Video |
| Arweinyddiaeth Gymunedol Flaengar I Gynghorwyr | **1** | **1** | Progressive Community Leadership Training |
| Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant | **0** | **4** | Equality, Diversity & Inclusion |
| Iechyd a Diogelwch i Aelodau | **7** | **20** | Health & Safety for Members |
| Iechyd a Diogelwch i Aelodau | **4** | **20** | Health & Safety for Members |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gwrth-Hiliaeth | **9** | **35** | Anti Racism |
| Gwrth-Hiliaeth | **9** | **35** | Anti Racism |
| Grŵp 6: Cryfhau Arweinyddiaeth (VAWDASV) | **9** | **35** | Group 6: Strengthening Leadership (VAWDASV) |
| Rhentu Doeth Cymru | **10** | **20** | Rent Smart Wales |
| Grŵp 6: Cryfhau Arweinyddiaeth (VAWDASV) | **6** | **16** | Group 6: Strengthening Leadership (VAWDASV) |
| Cynllunio i Aelodau | **26** | **34** | Planning for Members |
| Gwrandawiadau'r Pwyllgor Safonau ar y Côd Ymddygiad | **6** | **10** | Standards Committee's Code of Conduct Hearings |
| Cynllunio –Cyfarwyddyd Erthygl 4 | **23** | **33** | Planning - Article 4 Direction |
| Iechyd a Diogelwch i Aelodau | **9** | **9** | Health and Safety for Members |
| Diogelu Data (cwrs staff yn agored i bawb) | **6** | **4** | Data Protection (staff course open to all) |
| Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (cwrs Cymraeg i staff, wedi agor i bawb) | **5** | **0** | Equality, Diversity, and Inclusion (Welsh staff course opened to all) |
| Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (cwrs Saesneg i staff, wedi agor i bawb) | **5** | **1** | Equality, Diversity, and Inclusion (English staff course opened to all) |
| Seibrddiogelwch i Aelodau | **1** | **1** | Cyber Security for Members |
| Craffu ar y Gyllideb: Edrych Ymlaen | **-** | **2** | Budget Scrutiny: Looking Forward |
| Seibrddiogelwch i Aelodau Sesiwn | **1** | **1** | Cyber Security for Members |
| 'Cyber Ninjas' i Gynghorwyr | **7** | **7** | 'Cyber Ninjas' session for Councillors |
| Dangos Effaith - Gofyn y cwestiwn 'felly beth' | **-** | **3** | Demonstrating Impact - Asking the 'so what' question |
| Ymwybyddiaeth o'r Iaith Gymraeg | **1** | **1** | Welsh Language Awareness |
| Gweithdy Cyfathrebu a Chydweithio (DiSC©) | **2** | **2** | Communication and Collaboration workshop (DiSC©) |
| Gweithdy Cyfathrebu a Chydweithio (DiSC©) | **1** | **1** | Communication and Collaboration workshop (DiSC©) |
| Gweithdy Cyfathrebu a Chydweithio (DiSC©) | **1** | **1** | Communication and Collaboration workshop (DiSC©) |
| Cyflwyniad i Newid Hinsawdd (cwrs staff yn agored i bawb) | **-** | **1** | Introduction to Climate Change (staff course open to all) |
| Cydraddoldeb, Amrywiaeth, a Chynhwysiant (cwrs staff yn agored i bawb) | **4** | **4** | Equality, Diversity, and Inclusion |